# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Dementia Meddyg Care - Cricieth**

**Cartref Gofal The Pines**
**Mona Terrace**
**Cricieth**
**LL52 0DE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

**27 Medi 2023.**

27/09/2023

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Dementia Meddyg Care – Cricieth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Meddyg Care (Criccieth) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Tachwedd 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y bobl sy'n defnyddio, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae Meddyg Care Criccieth Ltd yn wasanaeth sy'n darparu gofal i bobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i fod yn addas ar gyfer pobl â dementia ac i gefnogi'r bobl a'u teuluoedd. Cynigir pecyn gweithgareddau buddiol i'r bobl ac mae proses cymorth i deuluoedd effeithiol ar waith. Mae'r bobl yn rhan greiddiol o'u cynlluniau eu hunain sy'n seiliedig ar anghenion a dewisiadau'r bobl. Mae amgylchedd y cartref yn lân ac yn daclus ac mae cynllun cynnal a chadw ac ailaddurno parhaus ar waith. Mae strwythur rheoli cadarn ar waith a chaiff ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i'r bobl ei oruchwylio'n dda. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn ystyried barn y bobl, y staff a'r teuluoedd wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y gwasanaeth.

## Llesiant

Gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae swyddog gweithgareddau / cyswllt â theuluoedd dynodedig yn y cartref sy'n darparu rhaglen lawn o weithgareddau ar gyfer y bobl. Mae'r swyddog wedi ennill gwobrau am ei waith gan Gofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys gwobr am urddas cyffredinol mewn gofal. Mae'r swyddog yn cwrdd â theuluoedd yn rheolaidd ac mae hyn yn ei helpu i ymdrin ag unrhyw faterion. Caiff llyfr atgofion ei greu ar gyfer pob unigolyn sy'n cynnwys ffotograffau ohonynt yn mwynhau gweithgareddau ac amser gyda'u teuluoedd. Gofynnir am gydsyniad cyn tynnu ffotograffau. Mae'r cartref wedi gweithio gyda gorsaf drenau Porthmadog er mwyn creu ardal yn y caffi sy'n cynnwys seddau trenau, cerddoriaeth ymlaciol a sgrin fawr sy'n dangos teithiau trên lleol. Mae gan bob unigolyn ddogfen “Dyma fi” a gaiff ei chwblhau drwy gydgysylltu â theuluoedd. Mae'r ddogfen yn nodi dymuniadau'r unigolyn o ran trefn ddyddiol, ei hoff bethau a'i gas bethau. Rhoddir dewis o brydau bwyd i'r bobl ac mae diodydd a byrbrydau ar gael yn hwylus iddynt. Mae'r staff yn cofnodi dewis iaith y bobl yn eu cynlluniau gofal; mae'r cartref yn gweithio tuag at gynllun peilot o ran cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu helpu i gyflawni eu llesiant. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd â phethau sydd o bwys iddynt. Caiff blychau atgofion eu defnyddio y tu allan i'r ystafelloedd er mwyn eu personoli ac er mwyn helpu'r bobl i adnabod eu hystafelloedd eu hunain. Rhoddwyd ystyriaeth i liwiau a décor y cartref a bwriedir iddynt helpu'r bobl i wybod pa ystafell y maent ynddi. Mae lolfeydd ar gael i'r bobl gymdeithasu neu dreulio amser tawel, yn unol â'u dymuniadau. Gall teuluoedd a ffrindiau ymweld â'r cartref ar unrhyw adeg ac mae digon o leoedd parcio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu oedolion agored i niwed a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Gall y staff ddisgrifio'r prosesau lleol ar gyfer cysylltu â'r tîm diogelu pe byddai ganddynt bryder am ofal unrhyw unigolyn. Mae eiriolwyr annibynnol ar gael i bobl heb deulu er mwyn helpu i sicrhau y caiff eu hawliau eu cynnal.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl lais mewn perthynas â'u gofal. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar anghenion, arferion a dewisiadau pob unigolyn. Caiff y cynlluniau personol eu storio ar system gyfrifiadurol sy'n nodi pan fo angen adolygu'r cynlluniau gofal a'r asesiadau er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal priodol pan fydd eu hanghenion yn newid. Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r staff wrth iddynt ddarparu gofal i'r bobl, ac yn ymwybodol o ba fath o ofal a roddir a phryd er mwyn sicrhau y caiff gofal ei ddarparu'n unol â'r cynllun personol. Gall y rheolwr weld ar y system gyfrifiadurol pa farcwyr ansawdd eraill sy'n cael eu cyflawni, er enghraifft, rheoli cwympiadau, rheoli pwysau a gofal y croen. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant "*Gwen am Byth*" ac maent yn defnyddio eu hasesiadau er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael lefelau da o ofal y geg. Gellir trefnu apwyntiadau gofal iechyd proffesiynol i'r bobl yn ôl yr angen, megis y deintydd cymunedol a'r optometrydd. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda nyrsys seiciatrig cymunedol er mwyn sicrhau bod adolygiadau yn cael eu cynnal mewn modd amserol i'r bobl. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y gydberthynas rhwng y cartref a'r meddyg teulu yn dda iawn a'i fod yn rhoi cymorth da i'r cartref. Mae'r trefniadau ar gyfer rhoi a storio meddyginiaethau yn dda. Roedd ystafell meddyginiaethau newydd yn cael ei hadeiladu yn ystod ein hymweliad arolygu. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliad rheolaidd o feddyginiaethau ac yn rhannu'r canlyniadau â'r staff, y rheolwr rhanbarthol a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau defnyddio gwasanaeth fferylliaeth newydd a dywedodd y rheolwr fod y broses o gael presgripsiynau a meddyginiaethau newydd i'r bobl yn ddibynadwy iawn ac yn amserol. Gwelsom gydberthynas dda rhwng y bobl a'r staff. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan da ac yn rheoli'r risg o haint. Mae cyfleusterau golchi dwylo ar gael i'r bobl a'r staff. Mae digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff, os bydd ei angen. Gellir ynysu'r bobl os byddant yn cael prawf positif ar gyfer haint, er mwyn helpu i'w atal rhag lledaenu. Mae'r staff yn cael yr hyfforddiant ddiweddaraf ar reoli heintiau gan fod gan y gwasanaeth ei hyfforddwr ei hun. Gwelsom o'r cynlluniau personol fod brechiadau yn cael eu cynnig i'r bobl er mwyn cynnal eu hiechyd. Mae'r cartref i'w weld yn lân ac yn daclus ac mae staff glanhau a staff golchi dillad penodol gan y gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae amgylchedd a chyfleusterau'r cartref yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd â phethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r cartref wedi'i addurno mewn ffordd sy'n ystyriol o ddementia er mwyn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o amgylch y gwasanaeth. Mae'r lolfeydd yn galluogi'r bobl i gymdeithasu neu i dreulio amser tawel, pe byddai'n well ganddynt wneud hynny. Mae cyfarpar ar gael i'r bobl i'w helpu â'u gofal. Caiff y cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd a'i newid yn ôl yr angen. Mae'r gegin wedi cael sgôr safonau bwyd o 5, sef y sgôr uchaf bosibl. Ceir rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw ac addurno yn y cartref er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn gyfforddus ac i sicrhau eu hurddas.

Mae'r gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i sicrhau iechyd a diogelwch y bobl. Caiff gwiriadau priodol eu cynnal ar gyfleustodau fel systemau dŵr, nwy a thrydan. Mae'r asesiadau risg tân yn gyfredol a chynhelir profion ar y larymau a'r goleuadau argyfwng bob wythnos. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng, sy'n nodi eu hanghenion unigol. Mae'r cynlluniau hyn ar gael yn hawdd i'r gwasanaethau brys. Caiff y polisi iechyd a diogelwch a'r asesiadau risg eu diweddaru'n rheolaidd ac maent ar gael i'r staff gyfeirio atynt. Roedd y lifft wedi torri yn ystod ein hymweliad arolygu. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd i ni fod lifft newydd wedi cael ei archebu er mwyn sicrhau y gall y bobl gyrraedd y lloriau uchaf a dychwelyd i'r llawr gwaelod yn ôl yr angen. Mae trefniadau wrth gefn ar waith yn y cyfamser.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn hwylus. Mae system reoli gadarn ar waith sy'n sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir drwy gynnal archwiliadau, hapwiriadau ac arolygiadau ffug yn rheolaidd. Caiff y canlyniadau eu rhannu â'r Unigolyn Cyfrifol a'r staff er mwyn dathlu arferion da a nodi unrhyw feysydd y mae angen gwneud rhagor o waith i ymdrin â nhw. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn gofyn am farn teuluoedd a'r staff er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gwella'n barhaus. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn llunio adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau.

Caiff y bobl eu cefnogi gan nifer cyson o staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau priodol. Mae'r rotas gwaith yn dangos bod nifer cyson o weithwyr gofal ar gael ar bob shifft. Mae'r broses o recriwtio a chadw staff yn dda. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y cartref a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu hyfforddi a'u goruchwylio'n dda. Roedd y cofnodion hyfforddi a goruchwylio yn dangos bod y gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant a'r sesiynau goruchwylio gofynnol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu cynnal arferion da a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith. Mae'r ffeiliau personél yn dangos bod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel a bod gwiriadau cyflogi yn cael eu cwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi datgan unrhyw anawsterau ariannol i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Gwelsom fod y gwasanaeth yn buddsoddi yn yr adeilad, y cyfleusterau a'r trefniadau staffio yn y cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi